| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 26 Medi 2018 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;<br>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Cynrychiolaeth. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr. |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 4 Gorffennaf 2018 o Gyd-Bwyllgor GwE:

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 2. CYFRIFON 2017/18

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2017/18 i'r cyfarfod 23 Mai 2018 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2017/18 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol i'r cyfarfod 4 Gorffennaf 2018.

## 3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Deloitte, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte. Gweler bod paragraff 8 yn nodi "Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol".

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2017/18

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2017/18. Mae'r newidiadau ers y fersiwn amodol ar archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2017/18 (yn dilyn archwiliad)

## 6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

**Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth** (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) **wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.**

## 7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:
Awdur yr adroddiad.